

Agenda – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd	Alun Davidson
Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2015	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Bil yr Amgylchedd (Cymru) – Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth 21

(09:00 – 11:00)

(Tudalennau 1 – 52)

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, yr Aelod sy'n gyfrifol

Andy Fraser, Pennaeth y Rhaglen Rheoli Adnoddau Naturiol

Lori Frater, Cynghorydd Technegol – Diwygio Deddfwriaethol

Nicola Charles, Cyfreithiwr

E&S(4)–24–15 Papur 1

3 Papurau i'w nodi

(Tudalennau 53 – 55)

Bil yr Amgylchedd (Cymru): Cyswllt Amgylchedd Cymru – Gwybodaeth Ychwanegol

(Tudalennau 56 – 57)

E&S(4)–24–15 Papur 2

Bil yr Amgylchedd (Cymru): Cyswllt Amgylchedd Cymru – Targedau Bioamrywiaeth

(Tudalennau 58 – 60)

E&S(4)–24–15 Papur 3



**Bil yr Amgylchedd (Cymru): Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig – Gwybodaeth
Ychwanegol**

(Tudalennau 61 – 64)

E&S(4)-24-15 Papur 4

**Bil yr Amgylchedd (Cymru): Y Gymdeithas Cadwraeth Forol – Gwybodaeth
Ychwanegol**

(Tudalennau 65 – 68)

E&S(4)-24-15 Papur 5

**Bil yr Amgylchedd (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol at Gadeirydd
y Pwyllgor Cyllid**

(Tudalennau 69 – 77)

E&S(4)-24-15 Papur 6

Bil yr Amgylchedd (Cymru): Wheelabrator Technologies – Gwybodaeth Ychwanegol

(Tudalennau 78 – 88)

E&S(4)-24-15 Papur 7

Bil yr Amgylchedd (Cymru): WWF-UK – Gwybodaeth Ychwanegol

(Tudalennau 89 – 91)

E&S(4)-24-15 Papur 8

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o weddill y cyfarfod ac o'r cyfarfodydd ar 24 a 30 Medi**

5 Bil yr Amgylchedd (Cymru): Trafod y materion allweddol

(Tudalennau 92 – 152)

Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF CS 0726 15

Alun Ffred Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Medi 2015

Annwyl Alun Ffred

BIL YR AMGYLCHEDD (CYMRU)

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf, a anfonwyd ar ôl y sesiwn a gynhaliwyd gan eich Pwyllgor ar 24 Mehefin er mwyn craffu ar Fil yr Amgylchedd (Cymru). Bûm i'n rhoi tystiolaeth yn y cyfarfod hwnnw. Rwyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac i roi eglurhad pellach er mwyn llywio gwaith y Cynulliad wrth iddo graffu ar y Bil.

Mae'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn ymdrin â'r fframwaith statudol ar gyfer sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli mewn modd sy'n helpu i ddiwallu ein hanghenion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'r Bil yn cyflwyno sawl ffordd o wneud hynny: yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, i'w baratoi gan CNC, a fydd yn asesu cyflwr adnoddau naturiol drwy gyflwyno'r dystiolaeth ddiweddaraf a fydd ar gael; y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, i'w baratoi gan Weinidogion Cymru, a fydd yn nodi'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru; ac, yn olaf, datganiadau ardal, i'w paratoi gan CNC, a fydd yn rhoi'r polisi cenedlaethol ar waith ar y lefel leol. Bwriedir i'r holl ddogfennau hyn ategu ei gilydd a chynorthwyo gyda'r gwaith o weithredu gofynion strategol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ceir yn Atodiad 1 fy ymatebion i'r cwestiynau na lwyddwyd i'w cyrraedd yn sesiwn y Pwyllgor ar 24 Mehefin. Mae'r atodiad hefyd yn rhoi rhagor o fanylion am y materion yr oeddech am gael eglurhad yn eu cylch ar ôl y sesiwn dystiolaeth.

Eir ati yn Atodiad 2 i roi rhagor o wybodaeth am yr amserlenni ar gyfer yr hyn y bydd angen ei wneud a'r adroddiadau y bydd gofyn eu paratoi o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae'r Atodiad hefyd yn dangos y cysylltiadau rhyngddynt.

Mae Atodiad 3 yn ddatganiad o fwriad y polisi mewn perthynas â'r datganiadau ardal sydd i'w paratoi gan CNC.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Mehefin, ymrwymais i anfon Adroddiad ar y Canfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg mewn perthynas â'r cynllun presennol i godi tâl am fapiau siopa. Fe'i hamgaeir yn Atodiad 4. Rwyf yn disgwyl i'r adroddiad llawn cael ei gyhoeddi yn yr hydref, ond gobeithio y bydd o fudd ichi weld y canfyddiadau sy'n dechrau dod i'r amlwg.

Yn olaf, byddaf, yn ystod yr wythnosau nesaf, yn cyhoeddi Datganiad Polisi ar Adnoddau Naturiol. Mae'r ddogfen hon yn rhagflaenydd i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, a fydd yn ddogfen statudol, ac mae'n mynd ati, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael inni ar hyn o bryd, i amlinellu'n blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn y portffolio Adnoddau Naturiol. Y bwriad yw i'r datganiad polisi gael ei ddefnyddio i lywio'r camau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cymryd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a hefyd i lywio'r gwaith treialu y bydd yn ei wneud yn hynny o beth. Bwriedir iddo hefyd bennu'r fframwaith ar gyfer ein polisiâu a'n cynlluniau presennol ar gyfer adnoddau naturiol ar y tir, a hynny cyn i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol gael ei gyhoeddi.

Rwyf yn edrych ymlaen at gael siarad â chi eto yn sesiwn y Pwyllgor ar 16 Medi.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Carl Sargeant'. The signature is written in a cursive, flowing style with a long tail on the final letter.

Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Minister for Natural Resources

Atodiad 1: Ymatebion i gwestiynau pellach gan y Pwyllgor

Eir ati yn yr Atodiad hwn i ymateb i'r cwestiynau a'r ceisiadau am eglurhad yn eich llythyr dyddiedig 16 Gorffennaf 2015.

1. Polisi Adnoddau Naturiol

a. Esbonio pam nad oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil ynghylch ymgynghori wrth fynd ati i ddatblygu'r Adroddiad am Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r Datganiadau Ardal.

Mae ymgysylltu a chydweithio ag eraill yn rhan gwbl sylfaenol o'r dull newydd o weithredu a ddarperir ar ei gyfer yn y Bil hwn. Nodir hynny'n glir yn adran 4: egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae'r egwyddorion hynny'n seiliedig ar egwyddorion rhyngwladol y "dull o reoli ar lefel yr ecosystem". O dan yr egwyddorion hynny, mae gofyn ymgysylltu'n eang â phob sector o'r gymdeithas, yn ogystal â chyda rhanddeiliaid, partïon sydd â buddiant, a chymunedau lleol.

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno gofyniad mewn perthynas â'r angen i gasglu tystiolaeth a phob math o wybodaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth leol yn ogystal â gwybodaeth wyddonol.

Gan fod yr egwyddorion hyn bellach yn rhan o ddiben cyffredinol newydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) o dan adran 5, bydd yn ofynnol i CNC weithredu yn unol â hwy wrth ymgymryd â'i swyddogaethau, gan gynnwys paratoi'r adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a'r datganiadau ardal. Mae CNC yn ymgysylltu eisoes â rhanddeiliaid a sefydliadau gwahanol wrth gynnal y treialon ardal a fydd yn llywio'r modd y bydd CNC yn mynd ati i roi'r egwyddorion yn y Bil ar waith yn ymarferol.

Wrth i Weinidogion Cymru baratoi'r Adroddiad Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, bydd yn ofynnol hefyd iddynt hwythau, o dan adran 9(8), gydymffurfio â'r egwyddorion hynny. Mae hynny'n golygu y bydd gofyn iddynt ymgysylltu'n llawn â phartïon â buddiant.

b. Egluro pa ymrwymïadau a pholisïau strategol yr ydych yn bwriadu eu cydgrynhoi yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

Hanfod y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yw defnyddio'r dull newydd o weithredu a nodir yn y Bil i baratoi polisi a fydd yn ein galluogi i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn amlinellu'r polisïau cyffredinol a'r polisïau penodol, ynghyd â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli'n hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ar y lefel genedlaethol, gan wneud hynny ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf a fydd ar gael, er enghraifft, yr wybodaeth a gaiff ei darparu yn yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol. Felly, mae'r ddarpariaeth fel y'i drafftwyd yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol fedru mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd penodol, a hynny mewn ymateb i dystiolaeth.

Diben rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn mynd i'r afael â sut yr ydym yn defnyddio'n hadnoddau naturiol: a sut y mae'r hyn yr ydym yn ei wneud yn effeithio ar yr adnoddau naturiol hynny. Mae'n ymwneud hefyd â gweithredu mewn modd cadarnhaol pan fo modd defnyddio'n hadnoddau naturiol er budd ein cymdeithas a'r economi, yn ogystal â'r amgylchedd, gan gefnogi'r nodau a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y bwriad yw i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol fod o gymorth inni fynd ati mewn modd integredig i ddatblygu polisi yng nghyd-destun datblygu amcanion llesiant Gweinidogion Cymru. Mae hynny'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac o dan rwymedigaethau ehangach, gan gynnwys y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a nodir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Er mwyn dangos yr hyn sydd gennyf mewn golwg, rwyf yn bwriadu cyhoeddi Datganiad ar Bolisi Adnoddau Naturiol yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y datganiad polisi yn rhoi amcan o'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd posibl ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y datganiad yn gyfle i ymgysylltu'n ehangach, a bydd hynny'n ein helpu wrth inni fynd ati i baratoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol cyntaf yng ngwanwyn 2017, os bydd y Bil yn dod yn ddeddf.

c. Esbonio pam nad yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth baratoi Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol.

Wrth i Weinidogion Cymru baratoi'r Adroddiad Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r egwyddorion yn adran 4 o'r Bil. Mae'r egwyddorion hynny'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, a byddai'r dystiolaeth honno'n cynnwys y dystiolaeth yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

Rhaid i Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gynnwys data y barna Gweinidogion Cymru eu bod yn berthnasol ac yn briodol. Yn ymarferol, byddai'r data hynny'n cynnwys gwybodaeth a nodir yn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, a fydd, o dan yr amserlenni yn y Bil, yn cael ei gyhoeddi cyn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol.

Mae'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn ategu ei gilydd. Mae hynny'n golygu y bydd modd i Weinidogion Cymru fanteisio ar y gwaith a gaiff ei wneud ar gyfer Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol pan fyddant yn llunio'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. O'r herwydd, rwyf o'r farn nad oes angen gwneud unrhyw ddarpariaeth bellach ar gyfer hyn mewn cyfraith.

2. Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth

a. Esbonio'r hyn y mae'r gofyniad ychwanegol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol yn ei olygu yn ymarferol.

Mae'n ofynnol o dan y Bil i Weinidogion Cymru, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth newydd, ystyried y Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol, yn hytrach na chydymffurfio â'r Confensiwn. Mae'r ddyletswydd hon i ystyried yn un sy'n bodoli

eisoes o dan adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon drwy ddatblygu'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, a gafodd ei fabwysiadu gan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Fioamrywiaeth Fiolegol (sydd wedi ei lofnodi gan y DU) yn brif fframwaith gweithredu o dan y Confensiwn. Pan aeth Llywodraeth Cymru ati yn 2010 ac yn 2012 i ymgynghori ynghylch egwyddorion lefel uchel ac ynghylch cynigion i ddefnyddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem yng Nghymru, gwelwyd bod cryn gefnogaeth i'r bwriad o gynllunio a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd newydd. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriadau cynharach hyn a'r ymgynghoriad am Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, ynghyd ag argymhellion a wnaed gan Bwyllgorau'r Cynulliad drwy amryfal ymchwiliadau, i gyd wedi dylanwadu ar y darpariaethau manwl a nodir yn y Bil.

Yn ymarferol, bydd y ddyletswydd arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried, er enghraifft, amcanion y Confensiwn. Mae'r amcanion hynny'n cynnwys gwarchod amrywiaeth fiolegol, a allai gynnwys darparu ar gyfer amrywiaeth fiolegol mewn strategaethau a chynlluniau cenedlaethol, er enghraifft, y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol. Mae'r Confensiwn hefyd am weld adnoddau biolegol yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy; ymdrinnir â hynny yn y diffiniad sydd yn y Bil o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r diffiniad hwnnw'n ymhelaethu ar ddiffiniad y Confensiwn o ddefnyddio adnoddau biolegol mewn modd cynaliadwy. Mae'n ehangach o lawer ac yn cynnwys yr holl adnoddau naturiol, gan gynnwys adnoddau daearegol ac amgylcheddol (aer, dŵr a phridd).

b. O ystyried y bydd awdurdodau cyhoeddus yn cael defnyddio amrywiaeth o ffurfiau gwahanol wrth baratoi adroddiadau am y camau gweithredu y byddant wedi'u cymryd, eglurwch sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro eu bod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd.

Er mwyn helpu i sicrhau cysondeb o ran y modd y byddant yn gwneud hynny, rwyf yn bwriadu cyhoeddi canllawiau a fydd yn amlinellu'r holl wybodaeth berthnasol y gellir ei chynnwys mewn adroddiad gan awdurdod cyhoeddus ynghylch sut y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6 o'r Bil. Bydd awdurdodau cyhoeddus yn gallu defnyddio'r canllawiau hynny i'w helpu i gwblhau'r adroddiadau y maent yn eu paratoi ar hyn o bryd.

Mae adran 6(5) o'r Bil yn nodi bod yn rhaid i sefydliadau gyhoeddi adroddiad am y ddyletswydd hon. Byddai angen cyhoeddi'r adroddiad cyntaf am gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth erbyn diwedd blwyddyn galendr 2019. Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi ymhell cyn y dyddiad hwnnw.

Mae'r dull gweithredu uchod yn gyson â'r un yr wyf wedi'i fabwysiadu ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n sefydlu'r fframwaith y mae Bil yr Amgylchedd yn rhan ohono.

c. Egluro'r hyn y mae cynnwys y term ecosystem yn Adran 6(2) yn ei olygu yn ymarferol o safbwynt dehongli'r ddyletswydd.

Ecosystem yw lle mae elfennau biolegol yn cyd-fodoli ac yn rhyngweithio â'u hamgylchedd anfyw er mwyn creu uned weithredol gydlynol.

Mae amrywiaeth fiolegol yn hanfodol i ecosystemau ac felly, drwy helpu i wella neu i gadw amrywiaeth fiolegol, er enghraifft, drwy wella cyflwr rhywogaethau neu gynefinoedd, gellir helpu i wneud ecosystemau'n fwy cydnerth. Bydd cysylltu'r ddau yn helpu i godi ymwybyddiaeth am y rôl hollbwysig sydd gan fioamrywiaeth i'w chwarae o ran cyfrannu at iechyd ecosystemau ac at y modd y maent yn gweithio.

Bydd cysylltu bioamrywiaeth â chydnerthedd ecosystemau yn helpu awdurdodau cyhoeddus i fagu gwell dealltwriaeth o'r manteision gwahanol a gynigir gan fioamrywiaeth ac ecosystemau, er enghraifft, mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gwella iechyd a llesiant, a chynnig cyfleoedd i sicrhau twf gwyrdd. Bydd o gymorth hefyd iddynt ddeall sut y mae'r ddau yn sail i'r nodau llesiant.

d. Esbonio'r berthynas rhwng y ddyletswydd hon ac Adrannau 9 a 10 o'r Bil, sy'n ymdrin â rheoli adnoddau naturiol, a'r Cynllun Adfer Natur.

Mae'r Cynllun Adfer Natur yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â'r ffaith ein bod yn colli bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd o gymorth hefyd i gyflawni'r nodau a bennwyd ar gyfer 2020, a hynny yn unol â'n dull cyffredinol o reoli adnoddau naturiol. Bydd hyn yn ein helpu i gyflawni ac i adrodd am y camau gweithredu manwl y mae angen eu cymryd er mwyn gwireddu'n hymrwymiaadau bydeang ac Ewropeaidd i atal bioamrywiaeth rhag cael ei cholli.

Wrth fynd ati i fodloni gofynion y ddyletswydd bioamrywiaeth, bydd awdurdodau cyhoeddus yn cael arweiniad ar sut i ymgymryd â'u gweithgareddau drwy droi at y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (adran 9) a'r datganiadau ardal (adran 10).

Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a'r datganiadau ardal yn ymdrin â materion ehangach na bioamrywiaeth yn unig. Byddant yn ystyried yr holl adnoddau naturiol a ddiffinnir yn y Bil, ac wrth wneud hynny, byddant yn darparu'r cyd-destun ar gyfer gweithredu ym maes bioamrywiaeth wrth reoli adnoddau naturiol yng Nghymru ac mewn ardaloedd penodol o Gymru.

e. A ystyriwyd defnyddio'r Bil hwn i'w gwneud yn statudol ofynnol i lunio Cynllun Adfer Natur.

Rwyf wedi ystyried y mater hwn ac wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol gwneud llunio Cynllun Adfer Natur yn ofyniad statudol. Diben Rhan 1 o'r Bil yw ystyried a gwneud darpariaeth mewn perthynas â'n holl adnoddau naturiol, gan edrych ar yr elfennau byw ac anfyw fel ei gilydd, a mynd ati mewn modd cydgysylltiedig i reoli'r holl adnoddau naturiol hynny.

Er fy mod yn cydnabod bod bioamrywiaeth yn hollbwysig, mae angen inni ystyried ein holl adnoddau naturiol, nid dim ond y rhai biolegol, er mwyn cyflawni'r amcan strategol o reoli'n hadnoddau'n gynaliadwy. Mae'r dull gweithredu a ddarperir ar ei gyfer yn y Bil yn rhoi fframwaith clir a chadarn er mwyn cyrraedd y nod hwnnw –

bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer ein holl adnoddau naturiol.

Bydd y Cynllun Adfer Natur yn cadarnhau'r bwriadau polisi manwl sydd gennym ar gyfer y camau hynny y mae angen eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth; bydd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol statudol yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd ar gyfer ein holl adnoddau naturiol, gan gynnwys y manteision a ddarperir ganddynt.

3. Rheoli Tir a Chynlluniau Arbrofol

a. Egluro pam mae angen pŵer ehangach i CNC lunio cytundebau rheoli tir gyda pherchenogion tir.

Y bwriad yw rhoi'r gallu i CNC lunio cytundebau gwirfoddol i reoli tir fel y bo modd cyflawni amcanion ehangach nag o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Mae'r pwerau presennol yn gyfyngedig o ran eu bod yn arferadwy mewn perthynas â tir a ddynodwyd at ddibenion cadwraeth neu er mwyn gwarchod harddwch naturiol ac amwynder, a hyrwyddo mwynhad gan y cyhoedd. Nid yw'r pwerau hynny'n ddigon eang i alluogi CNC i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol ar draws ei holl swyddogaethau ac yn unol â'i ddiben newydd o dan adran 5.

Un enghraifft fyddai llunio cytundeb gwirfoddol rhwng CNC a pherchennog tir er mwyn i'r tir hwnnw gael ei reoli mewn modd a allai gyfrannu at liniaru llifogydd.

b. O ystyried y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am bŵer NRM 11 ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, a ydych yn fodlon bod y pŵer hwnnw'n ddigon cyfyngedig a phenodol, a'i fod yn caniatáu i'r Cynulliad arfer digon o oruchwyliaeth.

Mae adran 22 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n atal darpariaethau deddfwriaethol am gyfnod dros dro, ond dim ond er mwyn cynnal cynlluniau arbrofol. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 22 yn gymwys am amser penodol yn unig a dim ond am dair blynedd y byddant yn cael bod mewn grym. Mae opsiwn i estyn y rheoliadau am dair blynedd arall ond ni cheir eu hestyn yn hirach na hynny.

Yr unig ddeddfwriaeth y caiff y rheoliadau ei diwygio yw deddfwriaeth sy'n ofyniad statudol a osodir ac a orfodir gan CNC.

Rhaid i CNC wneud cais i Weinidogion Cymru er mwyn cael arfer y pŵer hwn. Cyn iddo arfer y pŵer, rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod y rheoliadau'n angenrheidiol er mwyn cynnal cynllun arbrofol a fydd yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Yn ymarferol, mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i CNC gyflwyno manylion y cynllun arbrofol ac esbonio pam, yn ei farn ef, mae rhwystrau deddfwriaethol a fydd yn atal y cynllun yn gyfan gwbl, neu'n golygu na fydd mor effeithiol.

Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru fynd ati wedyn i ystyried y cais ac ymgynghori â'r bobl yr effeithir arnynt gan y rheoliadau a fydd yn atal y ddeddfwriaeth berthnasol am

gyfnod dros dro. Bydd gofyn hefyd iddynt ymgynghori â'r bobl bydd y cynllun arbrofol yn effeithio arnynt.

Pan fydd cynllun arbrofol yn dod i ben, bydd effaith y rheoliadau hefyd yn dod i ben.

Byddai gofyn i'r Cynulliad roi sêl ei fendith o dan y weithdrefn Gadarnhaol cyn y i Weinidogion Cymru fedru defnyddio'r pŵer.

Rwyf o'r farn bod y broses yn un briodol.

c. O gofio ymateb rhanddeiliaid i'r cynigion yn y Papur Gwyn ar Reolau Rhwymo Cyffredinol, esbonio pam mae Llywodraeth Cymru yn ystyried caniatáu i CNC ddefnyddio'r Bil hwn i gyflwyno cynlluniau o'r fath.

Aed ati ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd i geisio barn am rôl Rheolau Rhwymo Cyffredinol, yn ogystal â phwerau sy'n bodoli eisoes a phwerau newydd i roi Rheolau Rhwymo Cyffredinol ar waith. Gofynnwyd hefyd a ddylid rhoi rhagor o ystyriaeth i'r cynnig hwn. Yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn, argymhellwyd mai fesul cam y dylid mynd ati i gyflwyno Rheolau Rhwymo Cyffredinol.

Mae'r cynlluniau arbrofol o dan adrannau 22 a 23 o'r Bil yn golygu y bydd modd gweithredu fesul cam yn unol â'r argymhellion yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn.

Mae adrannau 22 a 23 yn rhoi'r gallu i CNC gynnal cynlluniau arbrofol a fydd yn caniatáu iddynt brofi a threialu dulliau gwahanol o weithredu a fydd yn darparu gwybodaeth am y mathau gwahanol o safonau a rheolau y gellid eu datblygu a'u troi'n Rheolau Rhwymo Cyffredinol.

Felly, bydd y pŵer i gynnal cynlluniau arbrofol yn golygu y bydd modd asesu gweithgareddau posibl y byddai modd eu rheoleiddio'n briodol drwy Reolau Rhwymo Cyffredinol.

d. A yw Llywodraeth Cymru neu CNC wedi ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid am y defnydd posibl o Reolau Rhwymo Cyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad pellach am yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer y defnydd posibl o Reolau Rhwymo Cyffredinol. Gwnaeth hynny drwy gyfrwng y Strategaeth Ddŵr i Gymru (a gyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ym mis Ebrill 2014) a hefyd pan gyflwynwyd trefniadau trawsgydymffurfio newydd ar gyfer ffermwyr sy'n cael cymorth o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (cyhoeddwyd at ddibenion ymgynghori ym mis Mai 2014). Rydym yn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriadau hynny wrth inni barhau i ddadansoddi'r posibilïadau o ran defnyddio Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn y dyfodol ar gyfer gweithgareddau gwahanol sy'n gysylltiedig â diogelu'r amgylchedd.

e. Esbonio pam mae angen y pŵer i estyn cynllun arbrofol am dair blynedd arall.

Diben adran 22 yw atal deddfwriaeth am gyfnod dros dro er mwyn cynnal cynllun arbrofol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i gynllun barhau am fwy na thair blynedd fel y bo modd asesu'r cynllun yn briodol a chasglu data o ansawdd. O barhau â'r treial y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o dair blynedd, mae'n bosibl hefyd y

bydd hynny'n helpu i roi sicrwydd i'r rheini a fydd yn gysylltiedig â'r treial hwnnw fod yr amser a'r ymrwymiad a roddwyd iddo wedi bod o fudd.

Byddai angen i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau pellach cyn i gynllun arbrofol gael parhau am gyfnod estynedig. Unwaith eto, byddai'r weithdrefn penderfyniad Cadarnhaol yn cael ei defnyddio ar gyfer y rheoliadau hynny.

f. Egluro pam nad oes angen defnyddio'r weithdrefn Uwchgadarnhaol ar gyfer rheoliadau a gaiff eu gwneud mewn perthynas â chynlluniau arbrofol.

O ystyried y cyfyngiadau llym a'r prosesau a fydd yn cael eu sefydlu ar gyfer cynlluniau arbrofol, rwyf o'r farn, fel y dywedais yn ymateb 3.b. uchod, bod y weithdrefn Gadarnhaol yn briodol. Nid wyf o'r farn bod angen defnyddio gweithdrefn Uwchgadarnhaol.

O dan y weithdrefn Gadarnhaol, bydd yn rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo'r rheoliadau neu ni fyddant yn gallu dod i rym. Rwyf o'r barn bod y lefel honno o graffu yn gymesur.

g. Egluro a fydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw geisiadau neu wybodaeth a ddaw i law oddi wrth CNC mewn perthynas â defnyddio'r pwerau hyn.

Cyn gwneud rheoliadau i atal deddfwriath am gyfnod dros dro, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori, a bydd gwybodaeth am y cynllun arbrofol yn cael ei datgelu yn ystod y broses honno.

Mae Rheol Sefydlog 27.1 yn darparu bod yn rhaid cyflwyno Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag unrhyw reoliadau drafft a osodir gerbron y Cynulliad. Bydd y Memorandwm Esboniadol yn esbonio manylion y cynllun a'r rhesymau dros wneud y rheoliadau.

h. Esbonio pam nad yw'r Bil yn nodi'r wybodaeth y byddai angen i CNC ei rhoi i Weinidogion Cymru mewn cais i ddefnyddio'r pwerau hyn.

Rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'n briodol rhagnodi i'r graddau hynny ar wyneb y Bil. Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 22, rhaid i Weinidogion Cymru eu bodloni eu hunain bod y rheoliadau'n angenrheidiol er mwyn cynnal cynllun arbrofol a fydd yn cyfrannu at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd gofyn, felly, i CNC gyflwyno achos a fydd yn cyfiawnhau pam y dylid arfer y pŵer er mwyn dileu'r rhwystrau deddfwriaethol. Bydd angen i CNC esbonio manylion y cynllun, ei ragoriaethau a'r rhesymau pam mae deddfwriaeth yn rhwystr. Oni fydd Gweinidogion Cymru yn cael eu bodloni bod yr achos yn un da, ni fyddant yn gwneud rheoliadau.

Pe bai angen, gallai Gweinidogion Cymru ddibynnu ar y pŵer sydd ganddynt o dan Erthygl 5 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 i gyhoeddi canllawiau yn nodi pa wybodaeth y byddai'n ofynnol ei chynnwys mewn cais.

Mae'r Memorandwm Esboniadol (tudalen 35) a'r Datganiad o Fwriad y Polisi (tudalen 4) yn rhoi rhagor o fanylion am yr wybodaeth y byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl iddi gael ei chynnwys yn y cais, ac maent yn manylu hefyd ar y broses y dylid ei dilyn. Er enghraifft, mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd yn rhaid i CNC gyflwyno cais manwl i Weinidogion Cymru a fyddai'n nodi'r ddarpariaeth

berthnasol, pam y byddai'r ddarpariaeth honno'n eu hatal rhag defnyddio'u pŵer i gynnal cynlluniau arbrofol, beth yn union fyddai'r cynllun, pwy fyddai'n gysylltiedig ag ef, beth fyddai ei amcan ac am ba hyd y disgwyliad iddo barhau.

i. Egluro ar draws pa ardal ddaearyddol y byddai'r darpariaethau statudol yn cael eu hatal am gyfnod dros dro. Er enghraifft, a allai'r ataliad dros dro fod yn gymwys i Gymru gyfan.

Bydd y pŵer hwn yn cael ei arfer yng nghyswllt cynllun arbrofol penodol. Y bwriad yw y bydd cynllun arbrofol yn gymwys i barti neu bartion penodedig ac nid fydd yn golygu y bydd darpariaeth yn cael ei hatal dros dro yn ei chyfanrwydd. Mewn egwyddor, gallai fod yn gymwys ledled Cymru, er enghraifft, pe bai gan barti safleoedd mewn ardaloedd gwahanol o Gymru. Fodd bynnag, dim ond i'r safleoedd hynny y byddai'r ataliad dros dro yn gymwys. Ni fyddai'n gymwys yn gyffredinol.

4. Y Newid yn yr Hinsawdd

a. Nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrifo cyfran yr allyriadau a fydd yn cael eu priodoli i Gymru o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE.

Gan ein bod yn awyddus i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer lleihau allyriadau, byddwn, fel rhan o'r fframwaith rheoleiddiol ar ei gyfer, yn edrych ar amryfal opsiynau cyn mabwysiadu'r fethodoleg fwyaf priodol i'w defnyddio i gyfrifo cyfran Cymru o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE. Wrth benderfynu sut y bydd allyriadau o dan y cynllun hwnnw'n cael eu cyfrifo yng nghyfrif allyriadau net Cymru, bydd angen inni ystyried a fydd y dull a fabwysiedir yn gydnaws â'r ffordd y mae'r cynllun masnachu'n cael ei redeg ar lefel yr UE, a hynny er mwyn sicrhau na fydd Cymru o dan unrhyw anfantais. Byddwn hefyd yn ystyried y dulliau a gaiff eu mabwysiadu mewn mannau eraill a byddwn yn trafod gyda llywodraeth y DU a llywodraeth yr Alban cyn penderfynu pa ddull i'w fabwysiadu yma yng Nghymru. Unwaith y cadarnheir y dull o roi cyfrif yng nghyfrif allyriadau net Cymru am gyfran Cymru o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE, bydd y dull hwnnw'n cael ei bennu mewn rheoliadau.

Gan fod hwn yn waith cymhleth, byddwn yn ceisio cyngor y corff cyngori pan fyddwn yn gwneud y rheoliadau hyn, fel y diffinnir yn y Bil.

b. O ystyried pa mor bwysig yw credydau o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE i allyriadau Cymru, pam nad oes dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau o dan adran 33(2) a fydd yn nodi o dan ba amgylchiadau y ceir credydu neu ddebydu unedau.

Mae'r darpariaethau'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu mewn rheoliadau pa unedau y ceir eu credydu i gyfrif allyriadau net Cymru a'u debydu ohono. Byddant hefyd yn gallu nodi sut y gellir gwneud hynny.

Mae'r ddarpariaeth hon yn debyg i'r un sydd yn Neddf y Newid yn yr Hinsawdd (Yr Alban) 2009, ac mae hefyd yn gyson â'r ddarpariaeth honno. Mae angen iddo fod yn bŵer yn hytrach nag yn ddyletswydd fel y bo modd bod yn ddigon hyblyg i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol, megis newidiadau/dileadau i arferion Ewropeaidd a rhyngwladol, neu i gynlluniau sy'n bodoli eisoes neu gynlluniau

newydd. Er enghraifft, pe na bai unrhyw ddiwydiannau yng Nghymru yn cymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau masnachu, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu'r ddyletswydd.

c. Esbonio pam nad oes dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod terfyn ar swm net y credydau y caniateir gostwng cyfrif allyriadau net Cymru o dan adran 33(3).

Mae'r pŵer yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gallu gosod terfyn o ran i ba raddau y ceir defnyddio unedau a fasnachwyd i gwrdd â'r targed a bennwyd ar gyfer 2050. Mae angen y pŵer hwn er mwyn i Weinidogion Cymru fedru pennu'r cyfuniad a ddymunir o ran gweithredu domestig a nifer y credydau rhyngwladol y caniateir eu defnyddio er mwyn cwrdd â thargedau Cymru. Bydd angen inni nodi hynny beth bynnag yn ein hadroddiad Polisiâu a Chynigion. Yn yr un modd â chydag adran 33(2), dim ond os bydd Gweinidogion Cymru yn caniatáu masnachu o fewn cyfrif allyriadau net Cymru y bydd angen rheoliadau. Pe na bai cynllun masnachu o'r fath yn cael ei gyflwyno, ni fyddai unrhyw ddiben i ddyletswydd i wneud rheoliadau a fyddai'n cyfyngu ar y masnachu hwnnw, felly, cedwir hynny fel pŵer yn hytrach na dyletswydd.

Rwyf yn rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn ac yn cydnabod y sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor i'r perwyl y byddai'n ddymunol cyfyngu ar swm net y credydau y caniateir gostwng allyriadau net Cymru.

d. A ystyriwyd cynnwys targed o ran ymdrech ddomestig ar wyneb y Bil.

Mae'n fwriad gennyf ddatblygu adroddiad "polisiâu a chynigion" er mwyn cwrdd â'r targedau a bennwyd o ran cyllidebau carbon, a bydd yr adroddiad hwnnw'n manylu ar yr ymdrech ddomestig gyffredinol. Bydd ynddo ragor o fanylion ac o'r herwydd, bydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i graffu ar gyfraniad Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd.

Mae hefyd yn bwysig nodi bod allyriadau o Gymru – lle mae dros 50% yn dod o osodiadau sy'n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE – yn wahanol o ran eu natur i rai'r Alban, a bod nifer bach o osodiadau sy'n rhan o Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE yn cael dylanwad mawr. Mae'r gosodiadau hynny'n cael eu rheoleiddio'n llawn ar lefel yr UE; oherwydd bod y cymhwysedd a ddatganolwyd i Weinidogion Cymru yn gyfyngedig yn hyn o beth, cyfyngedig hefyd yw'r opsiynau sydd ganddynt i ddylanwadu ar y cynllun hwnnw.

e. Esbonio pa fath o unedau carbon a allai fod yn rhai 'heb gyfyngiadau arnynt' o ran eu defnyddio i helpu i gyrraedd targed allyriadau Cymru o dan adran 33(4) o'r Bil.

Ni fydd unrhyw gyfyngiadau ar nifer yr unedau o garbon y bydd modd eu masnachu, er enghraifft, o dan Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE. Diben cynllun masnachu carbon yw annog gwledydd i leihau allyriadau dros gyfnod o amser, felly byddai cyfyngu ar y defnydd o unedau carbon yn golygu y byddai cynlluniau o'r fath yn llai effeithiol. Mae'r dull hwn yn gyson â'r hyn sy'n digwydd ar draws y DU.

Bydd y fframwaith a sefydlir gan y Bil yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion allweddol ar gyfer credydu unedau carbon i'r cyfrif allyriadau cyffredinol a'u debydu

ohono. Bydd yr eglurder a'r hyblygrwydd y bydd eu hangen er mwyn mabwysiadu'r arferion diweddaraf ar gyfer adrodd ar garbon yn cael eu sicrhau drwy reoliadau.

f. Esbonio'r berthynas rhwng y gofyniad o dan adran 39 i gyhoeddi adroddiad am bolisiau i gyrraedd cyllidebau carbon, a'r gofyniad yn adran 9(2) i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol nodi'r camau y mae angen eu cymryd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd.

O ran y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru amlinellu eu polisiau ar gyfer cyfrannu at reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys pa gamau y bydd angen eu cymryd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y Polisi hwnnw'n canolbwyntio ar sut y gall ein hadnoddau naturiol a'r manteision sy'n deillio o'n hecosystemau gyfrannu at liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a'n helpu i addasu er mwyn ymdopi â'r effeithiau hynny.

Mae'r Adroddiad Cynigion a Pholisiau o dan adran 39 yn ymdrin â'r polisiau a'r cynigion ar gyfer cyrraedd y gyllideb garbon ar gyfer y cyfnod hwnnw, gan gyfrannu at y targed hirdymor cyffredinol. Bydd y cynigion hyn yn ymdrin â materion ehangach megis gwastraff, trafndiaeth, y sector cyhoeddus etc a sut y maent yn helpu i leihau allyriadau.

g. Mewn perthynas ag adran 42, erbyn pryd y byddwch yn disgwyl i Weinidogion Cymru osod datganiad yn amlinellu sut y byddant yn gwneud iawn am yr allyriadau a fydd yn fwy na'r gyllideb garbon yn ystod blwyddyn olaf y gyllideb honno.

Bydd amseriad yr adroddiad a fydd yn nodi sut y bwriedir gwneud iawn am unrhyw allyriadau a fydd yn fwy na'r gyllideb garbon yn dibynnu ar amseriad y datganiad terfynol y bydd yn rhaid ei baratoi ar gyfer pob cyfnod cyllidebol, ac y darperir ar ei gyfer o dan adran 41. Caniateir gosod datganiad am y gyllideb derfynol ar unrhyw adeg hyd at 2 flynedd ar ôl i'r cyfnod cyllidebol ddod i ben. Fel y bo modd bod yn hyblyg o ran paratoi unrhyw adroddiad o'r fath cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y datganiad cyllidebol, nid oes amserlen benodol yn cael ei nodi yn yr adroddiad hwn. Heblaw hynny, oherwydd ei bod yn bosibl y bydd amrywiadau mawr o ran maint y polisiau a'r cynigion gwneud iawn y bydd eu hangen (gan ddibynnu ar faint yn fwy na'r gyllideb garbon fydd yr allyriadau) ac oherwydd bod y gwaith hwn yn waith cymhleth, nid wyf yn credu y byddai'n briodol gorfodi amserlen benodedig, y byddai'n rhaid i bawb gadw ati, ar gyfer paratoi'r adroddiadau hyn.

h. Esbonio pam nad oes unrhyw ddarpariaethau yn ymwneud ag ymaddasu yn y Bil.

Ymdrinnir ag ymaddasu drwy drefniadau eraill yn y Bil ac mewn deddfwriaeth arall, er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Rhaid i'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol gynnwys camau gweithredu y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd, a bydd y camau hynny'n cynnwys ymaddasu a mesurau lliniaru. Mae'r dull newydd o weithredu a gyflwynir yn y Bil mewn perthynas â'n hecosystemau a'r gwasanaethau gwahanol a ddarperir ganddynt yn cynnwys y rôl y gall ein hadnoddau naturiol ei chwarae o ran helpu i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Mae'r cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu haen arall. Mae nifer o elfennau yn y Ddeddf honno sy'n golygu ei bod yn ofynnol ystyried ymaddasu; yn eu plith y mae'r 'nod cydnerthedd', sy'n edrych yn benodol ar ba mor gydnerth yw Cymru ac ar ei gallu i ymaddasu mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos sut y byddant yn mynd ati i geisio cyrraedd yr holl nodau. Bydd yn rhaid i adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a'r asesiadau Llesiant ystyried Aseiad y DU o Risg y Newid yn yr Hinsawdd, sy'n asesu'r bygythiadau i Gymru, a'r cyfleoedd a ddaw i'w rhan yn ystod y ganrif nesaf mewn sectorau allweddol megis iechyd, seilwaith a busnes.

5. Bagiau Siopa

a. Egluro a yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r darpariaethau yn y Bil i gyfarwyddo bod yr enillion net o'r tâl am fagiau siopa untro yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol.

Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 57 yn ei gwneud yn ofynnol i werthwyr gymhwyso'r enillion net o'r tâl am fagiau siopa untro at ddibenion elusennol.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru o'r dechrau un na ddylai gwerthwyr elwa ar y tâl a, hyd yma, mae gwerthwyr wedi cael eu hannog i roi'r enillion i achosion da ac i lofnodi cod gwirfoddol Llywodraeth Cymru. Er ei bod yn amlwg bod llawer o werthwyr yn rhoi'r enillion net i achosion o'r fath, mae'n destun pryder imi nad yw rhai ohonynt yn gwneud hynny, a dyna pam yr wyf o'r farn bod angen pennu'r gofyniad hwn.

Bydd gwerthwyr sydd eisoes yn rhoi eu henillion net i achosion da yn parhau i wneud hynny ac ni ddylai'r ddyletswydd hon effeithio ar eu trefniadau presennol.

6. Gwastraff

a. Egluro a fyddai'n rhaid i unrhyw ofynion newydd i wahanu gwastraff fodloni'r un profion â'r rheini yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, sef bod angen gwahanu'r gwastraff, a bod gwneud hynny'n ymarferol yn dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd.

Rwyf yn awyddus i'r rheoliadau fod yn gymesur â'u nod. Byddem yn mynd ati wrth ddatblygu'r rheoliadau hyn i ystyried a ddylid cyflawni'r nod hwnnw drwy barhau i ddefnyddio'r prawf ymarferoldeb technegol, amgylcheddol ac economaidd, neu drwy gymryd camau eraill. Byddem hefyd yn ymgynghori am y mater hwn.

b. Nodi a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi codau ymarfer neu ganllawiau ar gyfer unrhyw ofynion newydd a gaiff eu cyflwyno.

Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau neu godau ymarfer er mwyn ategu'r gofynion newydd, a byddem yn gwneud hynny pe byddem o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Byddwn yn ystyried a fydd angen gwneud hynny ai peidio wrth inni fynd ati i ddatblygu mwy ar y cynigion.

c. Amlinellu pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i sut y gallai'r darpariaethau effeithio ar gystadleurwydd cymharol busnesau yng Nghymru..

Yn gyffredinol, disgwylir i'r darpariaethau olygu y bydd busnesau Cymru yn fwy cystadleuol. Yn ôl y gwaith modelu ar gyfer yr opsiwn a ffefrir yn yr Arfarniad Effaith Rheoleiddiol, rhagwelir y bydd mantais ariannol o £69.5 miliwn i Gymru dros gyfnod o ddeng mlynedd. Bydd y cynigion yn fanteisiol i lawer o fusnesau. Mae ymchwil a wnaed gan Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn awgrymu y gallai costau fod yn uwch i rai busnesau yng Nghymru, ond mae hefyd yn dangos nad yw unrhyw gynnydd yn debygol o fod yn fawr. Manylir ar y costau a'r manteision hyn yn yr Arfarniad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r Bil. Wrth i'r sector rheoli gwastraff ddatblygu, bydd grymoedd cystadleuol yn golygu y bydd rhagor o gynilion o ran cost yn cael eu trosglwyddo i'r rheini sy'n cynhyrchu'r gwastraff.

Cafodd gofynion tebyg ar wahanu a chasglu gwastraff eu cyflwyno yn yr Alban ym mis Ionawr 2014. Yn ôl yr arwyddion, nid yw'r gofynion newydd yn cael effaith andwyol ar fusnesau yn yr Alban, lle gwelwyd twf yn nifer y busnesau yn y sector preifat yn 2014.

7. Pysgodfeydd Cregyn

a. Cadarnhau a ydych yn credu bod yr ymadrodd niwed yn 'debygol o ddigwydd' yn ddigon i ddiogelu'r egwyddor ragofalus sydd yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar.

Rwyf o'r farn ei fod yn ddigon i ddiogelu'r egwyddor ragofalus fel y'i mynegir yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar.

Hanfod yr egwyddor ragofalus yw nad dim ond mewn achosion lle gellir bod yn siŵr y bydd niwed yn cael ei achosi y dylid ei gwneud yn ofynnol i weithredu. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu'r egwyddor honno: os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod digon o dystiolaeth i ddangos y byddai gweithredu pysgodfa yn debygol o arwain at niwed i Safle Morol Ewropeaidd, byddant yn cael cymryd y camau priodol. Nid oes angen aros nes bod niwed yn digwydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar.

b. Nodi baich y prawf y gallai fod ei angen ar Weiniogion Cymru er mwyn dangos bod niwed yn 'debygol o ddigwydd'.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu pan fyddant o'r farn bod digon o dystiolaeth i ddangos bod gweithredu pysgodfa yn debygol o achosi niwed.

Rhaid bod digon o dystiolaeth. Mae'r dull hwn o weithredu yn adlewyrchu darpariaethau'r UE a byddem yn disgwyl iddo gael ei ddehongli mewn modd sy'n gyson â'r darpariaethau hynny.

Er mwyn i'r pŵer fod yn effeithiol, bydd angen iddo fod yn gymwys o dan amrywiaeth eang o amgylchiadau. Mae hwn yn brawf sy'n cynnig hyblygrwydd, ac mae hynny'n bwysig o ystyried yr amryfal sefyllfaoedd o dan sylw.

c. Egluro a fyddai'r diffiniad o niwed yn adran 76 yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu pe bai gorchymyn pysgodfa gregyn, ynghyd â ffactorau eraill, yn golygu y byddai mwy a mwy o effaith negyddol ar Safle Morol Ewropeaidd.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gweithredu pryd bynnag y byddant yn gallu cadarnhau mai rhedeg y bysgodfa sy'n achosi niwed i Safle Morol Ewropeaidd.

Os bydd modd cadarnhau'r cysylltiad hwnnw, ni fydd Gweinidogion Cymru yn cael eu hatal rhag gweithredu oherwydd bod ffactorau eraill posibl a allai achosi niwed i safle o'r fath. Nid yw'r darpariaethau'n cael eu cyfyngu'n benodol i'r perwyl bod yn rhaid i'r niwed gael ei achosi gan (er enghraifft) y Granti yn unig.

Esboniadau o'r dystiolaeth lafar

A. Addawoch chi y byddech yn paratoi nodyn ar y berthynas rhwng y dyletswyddau adrodd gwahanol yn y Bil. A fyddai modd inni gael y nodyn hwnnw?

Mae'r fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn deillio o brif ddyletswyddau adrodd y Bil. Mae'r ffordd gyfunol hon o fynd ati i baratoi adroddiadau yn cynnwys casglu tystiolaeth, ei hasesu a gweithredu arni mewn ffordd parod i addasu. Mae'n broses ailadroddus fydd yn cael ei hadolygu gan ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf, yn unol ag egwyddorion rheoli cynaliadwy yn adran 4 y Bil.

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol: Dyletswydd CNC fydd yn darparu'r adroddiad hwn. Bydd:

- yn cynnwys asesiad o sefyllfa adnoddau naturiol Cymru a sut maen nhw'n cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy;
- yn gonglfaen y sail dystiolaeth ar gyfer y polisiau rheoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol o dan Adran 9 a'r Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a bydd
- yn cael ei gyhoeddi bob tro yn y flwyddyn cyn etholiad y Cynulliad Cenedlaethol.

Y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol: Dyletswydd Gweinidogion Cymru fydd paratoi a chyhoeddi'r polisi hwn. Bydd:

- yn pennu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran rheoli adnoddau naturiol;
- yn seiliedig ar adroddiad CNC o sefyllfa adnoddau naturiol Cymru, a bydd yn ystyried hefyd pob tystiolaeth berthnasol arall gan ei fod yn cael ei baratoi yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- yn cael ei roi ar waith gan Weinidogion Cymru gyda chymorth y datganiadau ardal; a
- chaiff ei adolygu o leiaf ar ôl pob etholiad Cynulliad.

Datganiadau ardal: Dyletswydd CNC yw paratoi datganiadau ardal. Byddant:

- yn nodi'r prif risgiau y bydd angen eu rheoli'n ofalus a'u lliniaru a'r prif gyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ar lefel ardal;
- yn hwyluso'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol;
- yn gallu cael eu cynnwys, os gwelir bod hynny'n briodol, fel rhan o gynllun neu strategaeth debyg, neu vice-versa;
- yn cael eu rhoi ar waith gan CNC ar y cyd â chyrff eraill; a
- gwellir eu hadolygu i'w newid unrhyw bryd yn unol ag egwyddorion rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol.

Yn fras, caiff blaenoriaethau a chyfleoedd cenedlaethol eu nodi yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a lunnir ar sail y dystiolaeth yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Bydd yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dylanwadu hefyd ar y datganiadau ardal, sef y cyfryngau ar gyfer rhoi'r Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar waith yn lleol. Caiff y dystiolaeth leol a gesglir wrth lunio'r datganiadau ardal ei defnyddio hefyd wrth adolygu'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn y dyfodol.

Mae Atodiad 3 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi'r adroddiadau y ceir dyletswydd i'w paratoi. Cyfeirir hefyd at yr adroddiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

B. A wnewch chi esbonio'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol cyntaf.

Er nad yw'r Adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol yn rhan o'r Bil, mae'n rhan o'r fframwaith llywodraethu ehangach ar gyfer gwneud Cymru'n fwy cynaliadwy. Mae dyletswyddau'r Bil hwn hefyd yn cyfrannu at y Gymru honno.

Mae Adran 11 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn datgan bod yn rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol o fewn 12 mis ar ôl etholiad y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hynny'n golygu bod gofyn ei gyhoeddi erbyn Mai 2017 fan hwyraf.

Mater i'r Llywodraeth nesaf yw a fyddant am gyhoeddi'r adroddiad cyn hynny. Bydd tystiolaeth yn Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ynghylch llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn y dyfodol. Bydd y modd y paratoui a chyhoeddir Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn dibynnu'n rhannol ar yr wybodaeth fydd ar gael. Daw'r wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau.

C. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr Asby bod y darpariaethau yn y Bil ynghylch yr amserlen ar gyfer pennu cyllidebau carbon a'r rheini yn Neddf Newid Hinsawdd 2008 y DU 'union yr un peth' [gweler RoP para 221]. Ond maen nhw'n wahanol i bob golwg. Roed yn rhaid pennu cyllideb gynta'r DU o fewn 18 mis i gychwyn y Ddeddf, nid o fewn dwy flynedd. Hefyd, gofynnai Deddf y DU am bennu'r tair cyllideb gyntaf erbyn Mehefin 2009 ac nid y ddwy gyntaf fel ag sydd ym Mil yr Amgylchedd (Cymru).

Mae'r Bil yn dilyn y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer Deddf Newid Hinsawdd y DU (pennwyd y gyllideb gyntaf ar ôl dyddiad dechrau'r gyllideb garbon).

Er mwyn mesur ein hallyriannau'n effeithiol, bydd gofyn ystyried yng nghyfnod y gyllideb gyntaf nifer o ffactorau pwysig fel yr wyddoniaeth a'r dechnoleg ddiweddaraf ac adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol. Er mwyn ategu'r gwaith hwn ac ystyried y goblygiadau ledled y wlad, bydd yn rhaid ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol a bydd angen gofyn i'r Corff Cynghori am ei gyngor.

